



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

**Aled Roberts**  
Comisiynydd y Gymraeg  
[Welsh Language Commissioner](#)

01/03

**Paul Davies AS**  
Cadeirydd  
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

[SeneddEconomi@senedd.cymru](mailto:SeneddEconomi@senedd.cymru)

19 Gorffennaf 2021

Annwyl Mr Davies

### **Ystyried y Gymraeg yng ngwaith y Pwyllgor**

Rwyf yn ysgrifennu atoch ar ddechrau cyfnod y chweched Senedd i'ch annog i sicrhau y bydd y Pwyllgor yn rhoi ystyriaeth lawn i'r Gymraeg ym mhob agwedd o'i waith.

Yn Strategaeth Cymraeg 2050 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y weledigaeth o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg a chynyddu'r ganran sy'n siarad y Gymraeg yn ddyddiol i 20%. Mae'r strategaeth yn cynnwys cerrig milltir i fesur llwyddiant ei chyflawniad, gyda'r garreg filltir gyntaf yn 2021 a'r nesaf yn 2026. Yng nghyfnod y Chweched Senedd bydd raid bwrw ati o ddifri i ddwyn y Llywodraeth i gyfrif am y graddau y mae'r Strategaeth yn cael ei chyflawni a'r cerrig milltir yn cael eu cyrraedd. Yn hynny o beth mae'n hollbwysig prif ffrydio'r Gymraeg i ddeddfwriaeth a pholisi ehangach ac mae'n bryder gennyf nad oes digon o graffu ar effaith deddfwriaeth a pholisi ehangach ar y Gymraeg yn gyffredinol. Yn wir, nododd Eluned Morgan, y Gweinidog blaenorol dros Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg, mewn sesiwn graffu:

... I would suggest that actually, rather than just holding me to account when it comes to the budget, [...] that actually you ask the other Ministers, who've got huge amounts of money, what they're doing within their budgets in relation to the Welsh language."  
(Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, Cymraeg a Chyfathrebu, 25 Chwefror 2021)

Comisiynydd y Gymraeg  
Siambrau'r Farchnad  
5-7 Heol Eglwys Fair  
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221  
[post@comisiynyddygyymraeg.cymru](mailto:post@comisiynyddygyymraeg.cymru)  
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

[comisiynyddygyymraeg.cymru](http://comisiynyddygyymraeg.cymru)

Welsh Language Commissioner  
Market Chambers  
5-7 St Mary Street  
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221  
[post@welshlanguagecommissioner.wales](mailto:post@welshlanguagecommissioner.wales)  
Correspondence welcomed in Welsh and English

[welshlanguagecommissioner.wales](http://welshlanguagecommissioner.wales)

Pwysleisiaf na ddylid ystyried y Gymraeg yn fater diwylliannol yn unig gan ei bod yn iaith fyw ym mhob un o gymunedau Cymru ac yn brif iaith yn nifer ohonynt. Mae'r cymunedau hynny yn wynebu nifer o heriau cymdeithasol ac economaidd sydd yn eu tro yn herio hyfywedd y Gymraeg yn y cymunedau hynny.

Cyhoeddodd y Comisiynydd ddogfen maniffesto ar gyfer etholiad 2021<sup>1</sup> sy'n ategu fy sylwadau uchod bod angen ystyried amrediad eang o ffactorau sy'n effeithio ar y Gymraeg. Yng nghyd-destun cylch gwaith y pwyllgor ar yr economi, noda'r ddogfen ei fod yn gwbl hanfodol bod y Gymraeg yn cael ei gweld fel ffactor all gynorthwyo twf busnes a datblygiad economaidd. Mae'n argymhell y dylid:

- Cynnwys disgwyliad i fusnesau sy'n ceisio cymorth ariannol y Llywodraeth i adnabod sgiliau iaith Gymraeg ei weithlu ac ymrwmo i ddefnyddio a datblygu'r sgiliau hynny.
- Cysylltu amcanion strategaethau datblygu economaidd â Cymraeg 2050 drwy greu'r cyfleoedd i gefnogi busnesau newydd i sefydlu mewn ardaloedd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg.
- Creu swyddi sector cyhoeddus o ansawdd mewn ardaloedd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg drwy gefnogi lleoliadau gwaith a / neu amodau gweithio hyblyg i'r ardaloedd hynny.

Yng nghyd-destun cylch gwaith y pwyllgor ar faterion gwledig, ym mis Mawrth eleni ymatebodd y Comisiynydd i ymgynghoriad y Llywodraeth ar Bapur Gwyn Amaethyddiaeth (Cymru). Roedd ein sylwadau yn cynnwys yr angen i ystyried:

- effaith y cynigion ar y ffermydd teuluol sy'n cynnal cymunedau gwledig Cymraeg eu hiaith, yn sgil rhoi'r pwyslais ar fanteision amgylcheddol ar draul manteision sosio-economaidd;
- y diffyg cydnabyddiaeth o werth y Gymraeg i ddangos cynnyrch premiwm, a diffyg cyfle i fanteisio ar wneud y gorau o'r nod unigryw hwn;
- yr angen i gynyddu a datblygu defnydd o'r Gymraeg o fewn y sector drwy'r gwasanaethau cynghori a'r cynlluniau datblygu sgiliau;
- yr angen i gyflwyno ffrwd ariannol a fyddai'n gwobrwyo busnesau am fanteision ieithyddol yn ogystal â manteision amgylcheddol;
- yr angen i gasglu data am y Gymraeg o fewn y sector er mwyn gosod sail dystiolaeth a fyddai'n llywio datblygiadau polisi yn y dyfodol;
- yr angen i ddatblygu asesiad effaith trylwyr sy'n mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd i'r Gymraeg fesul cynnig, ac adnabod mesurau lliniaru i unrhyw effeithiau negyddol.

---

<sup>1</sup> [Maniffesto \(positif.wales\)](https://positif.wales)



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

Yr her i'r Llywodraeth newydd fydd gweithredu'n radical er mwyn sicrhau ein bod ar y trywydd iawn i gyrraedd targedau 2050 a chredaf fod gan y pwyllgor rôl hollbwysig yn yr ymdrech i gyflawni hyn.

Gobeithio y byddwch yn cadw'r sylwadau hyn mewn cof wrth i chi ystyried gwaith y pwyllgor i'r dyfodol. Dymunaf bob llwyddiant i chi yn y gwaith hwnnw ac edrychwn ymlaen at gyfrannu ato.

Yr eiddoch yn gywir

Gwenith Price

**Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg**



Paul Davies AS  
Cadeirydd  
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

SeneddEconomi@senedd.cymru

1 Medi 2021

Annwyl Mr Davies

## Ymgynghoriad – Blaenoriaethau Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Diolch yn fawr am y cyfle i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad uchod. Ysgrifennodd fy swyddfa atoch ar 19 Gorffennaf i ofyn i chi ystyried y Gymraeg yn eich gwaith fel pwyllgor. Atodaf gopi o'r llythyr er eich gwybodaeth. Trafoda'r llythyr nifer o faterion allweddol yng nghyd-destun strategaeth Cymraeg 2050 ac ymgynghoriad y Llywodraeth ar Bapur Gwyn Amaethyddiaeth (Cymru). Gofynnaf i chi ystyried y materion hynny, os gwelwch yn dda, wrth ddewis y blaenoriaethau y byddwch chi'n eu gosod ar gyfer y pwyllgor wrth gynllunio ei raglen waith.

Mae cyfraniad y Gymraeg i economi Cymru a chyfraniad economi Cymru i hyfywedd y Gymraeg yn faterion y mae angen rhoi llawer mwy o sylw iddynt. Cynhaliodd y Llywodraeth ddiwethaf Fwrdd Crwn ar y Gymraeg a'r Economi ac mae bwriad gan y Llywodraeth newydd i barhau i'w gynnull<sup>1</sup> i brif ffrydio'r Gymraeg i raglenni economaidd a chyflogadwyedd perthnasol. Cyhoeddodd y Llywodraeth hefyd ymchwil ar *Y Gymraeg a'r economi: adolygiad o'r dystiolaeth a'r dulliau yn 2020*<sup>2</sup>. Rhaid sicrhau y bydd y Gymraeg

<sup>1</sup> [Cymraeg 2050: ein cynllun ar gyfer 2021 i 2026 \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

<sup>2</sup> [Y Gymraeg a'r economi: adolygiad o'r dystiolaeth a'r dulliau \(llyw.cymru\)](#)

Comisiynydd y Gymraeg  
Siambrau'r Farchnad  
5–7 Heol Eglwys Fair  
Caerdydd CF10 1AT

0345 6033 221  
post@comisiynyddygyymraeg.cymru  
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygyymraeg.cymru

Welsh Language Commissioner  
Market Chambers  
5–7 St Mary Street  
Cardiff CF10 1AT

0345 6033 221  
post@welshlanguagecommissioner.wales  
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.wales



yn ganolog i gynlluniau datblygu economaidd y Llywodraeth newydd a buasem yn argymhell eich bod yn edrych yn fanwl ar y graddau y bydd y Llywodraeth yn prif ffrydio'r Gymraeg i'w datblygiadau. Dylid ystyried sut y mae'r Llywodraeth yn sicrhau cyfraniad y Gymraeg i economi Cymru yn ogystal â sut y gall economi lewyrchus drwy'r wlad, ac yn arbennig mewn mannau lle ceir canrannau uchel o siaradwyr Cymraeg, gyfrannu at hyfywedd y Gymraeg.

Fel y nodwyd yn y llythyr blaenorol, mae gan y pwyllgor rôl hollbwysig yn yr ymdrech i gyrraedd targedau Cymraeg 2050. Byddwn yn falch o gydweithio gyda chi wrth anelu at y nod hwn.

Yr eiddoch yn gywir,

Aled Roberts  
**Comisiynydd y Gymraeg**